**Modelau o gydweithio – cymhariaeth**

## 1. Cefndir

1.1 Mae sawl ffordd y gellir mynd ati i sefydlu trefniant o gydweithio rhwng ysgolion, yn bennaf dan y penawdau "clystyru" a "ffederaleiddio".

1.2 Mae clystyrau wedi bodoli yng Ngwynedd ers rhai blynyddoedd.

1.3 Wrth gyflwyno strategaeth ddrafft i ad-drefnu ysgolion cynradd Gwynedd yn Hydref 2007, amlinellwyd model o ysgol ffederal ffurfiol.

1.4 Yn ystod Medi 2008, cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol gan Lywodraeth y Cynulliad oedd yn awgrymu model amgen ar gyfer sefydlu ysgol ffederal. Darparwyd ymateb gan Gyngor Gwynedd. Nid yw'r canllawiau terfynol eto wedi ymddangos gan y Cynulliad, ond disgwylir iddynt ddod gerbron yn ystod Hydref 2009. Serch hynny, gellir trafod nodweddion sylfaenol y ddogfen ymgynghorol.

1.5 Mae'r papur sy'n dilyn yn nodi'r prif ffactorau - y ffactorau sy'n debyg a'r rhai sy'n wahanol - y tair model.

## 2. Pwyntiau Cyffredinol

2.1 Mae i'r modelau o glystyru, ffederaleiddio ffurfiol a model newydd arfaethedig y Llywodraeth o ffederaleiddio nifer o nodweddion tebyg, gan gynnwys:

- cynnal parhad a phresenoldeb ysgol
- uno dwy neu fwy o ysgolion dan arweinyddiaeth un pennaeth
- yn cynnig cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng yr ysgolion gan gynnwys rhannu arbenigeddau staff
- cynnig cyfleoedd ffurfiol i ddod â phlant ynghyd ar gyfer sesiynau penodol

2.2 Mae i'r modelau hefyd nodweddion unigryw. Amlinellir y rhain yn y tabl isod.

2.3 Nodir yma fod y dadansoddiad o fodel y Llywodraeth o ysgol ffederal wedi'i seilio ar ddogfen ymgynghorol Hydref 2008 ac nid ar ganllawiau cadarn. Disgwylir y canllawiau hyn yn ystod Hydref 2009. Rhagamcan sydd yn y tabl isod o'r model posib ar sail cynnwys y ddogfen ymgynghorol.

| | Model | | |
|---|---|---|---|
| **Ffactor** | **Clystyru** | **Ysgol Ffederal Ffurfiol** | **Rhagdybiaeth o fodel newydd y Llywodraeth** |
| | | | |
| ***Statws cyfreithiol y trefniant*** | Ysgolion yn parhau fel ysgolion statudol annibynnol | Cau pob ysgol yn statudol ac yna'u hail-agor fel safleoedd o fewn yr Ysgol Ffederal | Ysgolion yn parhau fel ysgolion statudol annibynnol ond gyda chytundeb tymor canolig ffurfiol i gydweithio |
| | Ysgolion unigol yn cytuno'n rheolaidd i barhau neu i ddiweddu'r trefniant. | Y trefniant yn barhaol. | Ysgolion unigol yn cytuno'n rheolaidd i barhau neu i ddiweddu'r trefniant. |
| | Ni ellid cau safle heb ymrwymo i'r broses statudol lawn | Gallai'r corff llywodraethol neu'r Cyngor gynnig cau safle heb fynd trwy'r broses statudol | Ni ellid cau safle heb ymrwymo i'r broses statudol lawn |
| | | | |
| ***Nifer ysgolion*** | Mae parhad yr ysgolion fel ysgolion gwbl annibynnol yn golygu na ellir clystyru mwy na 2 ysgol. | Gellid ffederaleiddio 3-4 o ysgolion fel arfer. | Nid oes cyfyngiad ar nifer ysgolion. Serch hynny, mae natur anffurfiol nifer tebycach i glwstwr nag ysgol ffederal ffurfiol |
| | | | |
| ***Arweinyddiaeth a Rheolaeth*** | Cyrff llywodraethol unigol yn parhau ac yn cydweithio ar faterion penodol | Un corff llywodraethol ar gyfer un ysgol aml-safle. Byddai angen cynyddu niferoedd llywodraethwyr i sicrhau cynrychiolaeth i bob safle. | Cyrff llywodraethol unigol yn cytuno i sefydlu un corff ar gyfer yr ysgol ffederal newydd. Awgrymir cynyddu nifer llywodraethwyr i tua 20 er mwyn sicrhau cynrychiolaeth i bob ysgol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Pennaeth un ysgol yn cytuno i gymryd cyfrifoldeb arwain ysgol arall | Un pennaeth wedi'i benodi ar y cyd y corff llywodraethol | Amrywiol - gellid penodi un pennaeth ar y cyd gan y corff llywodraethol cyfun, neu un swyddog rheoli i oruchwylio nifer o ysgolion gyda phenaethiaid yr ysgolion unigol yn parhau. |
| | Pennaeth Safle yn gyfrifol am ofalu am y safle nad sy'n fan gwaith i'r Pennaeth | Penaeth(iaid) Safle yn gyfrifol am ofalu am y safle(oedd) nad sy'n fan gwaith i'r Pennaeth | Penaethiaid Safle yn gyfrifol am ofalu am y safle(oedd) nad sy'n fan gwaith i'r Pennaeth |
| | | | |
| ***Cyllid*** | Cyllidebau unigol yr ysgolion unigol yn parhau. Cytundeb rhwng y cyrff llywodraethol i ariannu rhai elfennau ar y cyd | Un gyllideb yn cynnwys cydnabyddiaeth o anghenion cynnal ysgol aml-safle | Cyllidebau unigol gan ysgolion unigol, gyda'r corff llywodraethol cyfun yn cytuno i uno'r cyllidebau yn gyfan gwbwl neu uno elfennau o'r gyllideb ar gyfer materion penodol. |
| | Dim newid sylweddol i gyllideb yr ysgolion heblaw'r angen i dalu cyflog un athro/awes ychwanegol yn lle un pennaeth. | Arbedion parhaol wrth sefydlu un gyllideb, sefydlu un swydd pennaeth, un corff llywodraethol. | Arbedion posib, ond ni fyddant yn barhaol gan mai trefniant anstatudol fyddai ysgol ffederal dan y rheoliadau drafft hyn. |
| | | | |
| ***Diweddu'r trefniant*** | Trefniant anffurfiol, felly gall unrhyw gorff llywodraethol yn unigol neu ar y cyd benderfynu diweddu'r trefniant ar unrhyw adeg | Trefniant ffurfiol, statudol. Ni ellid newid y trefniant heb ymgynghoriad statudol | Trefniant anffurfiol, felly gall unrhyw gorff llywodraethol yn unigol neu ar y cyd benderfynu diweddu'r trefniant ar unrhyw adeg |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Addysg enwadol*** | Dim effaith, gan fod pob ysgol yn parhau fel endid unigol. | Angen cytundeb ar statws yr ysgol rhwng yr ysgolion gan mai un endid cyfreithiol fyddai'r ysgol newydd. | Ni ragwelir effaith gan y byddai'r ysgolion unigol yn parhau fel  endidau cyfreithiol annibynnol. |
| | | | |